
**Tair mewn rhes**


Bydd angen cyfrifiannell ar gyfer y gêm hon.
Tynnwch linell fel hon:




- Cymerwch dro i ddewis ffracsiwn, dweder $^{2}/_{5}$. Defnyddiwch gyfrifiannell i'w newid yn ddegolyn (h.y. 2 ÷ 5 = 0.4) a rhowch prif lythrennau eich enw ar y pwynt hwn ar y llinell.
- Bwriad y gêm yw cael 3 croes mewn rhes heb gael llythrennau enw'r person arall rhyngddynt.
- Mae rhai ffracsiynau yn fwy anodd eu gosod, e.e. nawfedau.

**Blodau**

- Yn eich tro meddyliwch am flodyn.




- Defnyddiwch gôd yr wyddor, A = 1, B = 2, C = 3... hyd at Y = 28.
- Dowch o hyd i'r rhifau ar gyfer llythyren gyntaf a llythyren olaf eich blodyn, e.e. am Daffodil, D = 5 , ac L = 14 .
- Lluoswch y ddau rif, e.e. 5 x 14 (14 x 5) = 70.
- Y person â'r ateb mwyaf sy'n sgorio pwynt.
- Y cyntaf i gyrraedd 5 pwynt sy'n ennill.

Pan fyddwch yn chwarae eto meddyliwch am anifeiliaid, neu wledydd.

# Targedau i ddisgyblion

# Blwyddyn 6

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn





## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

# Targedau – Blwyddyn 6 

**Erbyn diwedd Blwyddyn 6, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu …**

- ☐ Gwybod yr holl dablau i 10 x 10, yn enwedig i rannu, e.e. 63 ÷ 7 = 9, gan gyfrifo gweddill yn gyflym.
- ☐ Lluosi a rhannu degolion â 10 neu 100 yn eu pen, e.e. 2.61 x 10, 53.2 ÷ 100.
- ☐ Rhoi rhifau, gan gynnwys degolion, yn nhrefn eu maint, e.e. 1.06, 0.099, 0.25, 1.67.
- ☐ Defnyddio pensil a phapur i adio a thynnu degolion, e.e. 3.91 + 8.04 + 24.56, neu 13.3 – 1.27.
- ☐ Defnyddio pensil a phapur i luosi a rhannu, e.e. 387 x 46, 21.5 x 7, 539 ÷ 13, 307.6 ÷ 4.
- ☐ Canslo ffracsiynau e.e. lleihau $^{4}/_{20}$ i $^{1}/_{5}$, a chyfrifo pa ffracsiwn yw'r mwyaf, e.e. $^{7}/_{12}$ neu $^{2}/_{3}$.
- ☐ Cyfrifo canrannau syml cyfanrifau, e.e. 25% o £90 yw £22.50.
- ☐ Amcangyfrif onglau a defnyddio onglydd i'w mesur.
- ☐ Cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau syml y gellir eu rhannu'n betryalau, e.e. 
- ☐ Datrys problemau geiriau ac esbonio'u dull gweithio.
- ☐ Defnyddio cyfesurynnau i blotio safle pwyntiau.
- ☐ Deall a defnyddio'r wybodaeth mewn graffiau, siartiau a thablau.

## Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Mae'n bosib bod targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn gwybod sut i gyfrifo symiau ar bapur ond mae angen iddynt weld hefyd pryd y byddai'n gyflymach cyfrifo yn eu pen.

## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Ryseitiau

Chwiliwch am rysáit i 4 person a'i hailysgrifennu i 8 person, e.e.

| 4 person | 8 person |
|---|---|
| 125g blawd | 250g blawd |
| 50g menyn | 100g menyn |
| 75g siwgr | 150g siwgr |
| 30ml triog | 60ml triog |
| 1 llwy de sinsir | 2 llwy de sinsir |

Fedrwch chi ei hailysgrifennu i 3 pherson? Neu 5 person?

### Pedwarau

- Defnyddiwch bedwar pedwar yn union bob tro.
- Gallwch adio, tynnu, lluosi neu rannu.
- Allwch chi wneud pob rhif o 1 i 100?
- Dyma ddull neu ddau o wneud y ddau rif cyntaf.

$$1 = (4 + 4)/(4 + 4)$$
$$2 = 4/4 + 4/4$$